# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 01/12/2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### AIDS

**C14 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o AIDS? OAQ(3)2438(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ariannu rhaglen atal HIV ar gyfer Cymru gyfan rhwng 2001 a 2009. Cafodd y rhaglen honno ei chynnal gan Ymddiriedolaeth Terrence Higgins Cymru. Mae gwaith i atal HIV yn cael ei adolygu ar hyn o bryd fel rhan o'r strategaeth iechyd a lles rhywiol. Bydd dogfen ôl-ymgynghori, sy'n nodi sut y dylid gweithredu yn y dyfodol, yn cael ei chyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

### 'Cymru'n Un'

**C15 Trish Law:** A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' ym maes twristiaeth i hyrwyddo Cymru yn frwd mewn marchnadoedd allanol? OAQ(3)2448(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Croeso Cymru yn parhau i roi blaenoriaeth i farchnadoedd Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd, Unol Daleithiau America ac Iwerddon. Mae'r fframwaith marchnata a gytunwyd gyda Visit Britain yn golygu bod Croeso Cymru, erbyn hyn, yn canolbwyntio ar farchnadoedd agosach sydd wedi ennill eu plwyf, ond mewn marchnadoedd llai sefydledig mae'n cytuno ar themâu Cymreig i'w hyrwyddo o dan ymbarél Visit Britain.